

Rhagair

1. Mae Prifysgol Caerdydd yn cael ei chydabod yn rhyngwladol fel prifysgol ymchwil-ddwys lwyddiannus. Cafodd hyn ei gadarnhau drwy gyrraedd y pump uchaf yn Fframwaith Rhagoriaeth Ymchwil 2014.
2. Mae Prifysgol Caerdydd wedi ymrwymo i gynnal egwyddorion Concordat i Gefnogi Gonestrwydd Ymchwil Prifysgolion y DU (Concordat), ac mae ganddi systemau cadarn ar waith i gefnogi ei hymchwilwyr i gynnal ymchwil hyd at y safonau proffesiynol uchaf.

Diben

3. Gwella atebolrwydd a sicrhau yr ymgwymerir â mesurau at gynnal safonau uchel o onestrwydd ymchwil, mae'r Concordat yn argymhell bod cyflogwyr ymchwilwyr yn paratoi datganiad blynyddol byr ar gyfer eu corff llywodraethu sy'n darparu'r canlynol:
 - 3.1. Crynodeb o weithredoedd a gweithgareddau yr ymgwymerwyd â nhw er mwyn cynnal a chryfhau dealltwriaeth a chymhwysiad problemau gonestrwydd ymchwil;
 - 3.2. Sicrhau bod y prosesau sydd ar waith er mwyn delio â chyhuddiadau o gamymddwyn yn dryloyw, cadarn, a theg, a'u bod yn parhau i fod yn addas at anghenion y sefydliad; a
 - 3.3. datganiad lefel uchel ynghylch unrhyw ymchwiliadau ffurfiol i gamymddygiad ymchwil a gafwyd,
4. Dyma ail Ddatganiad blynyddol y Brifysgol ynghylch Gonestrwydd Ymchwil (Datganiad Blynyddol) ac mae wedi'i greu ar gyfer corff llywodraethol y Brifysgol (ei 'Chyngor') yn ôl argymhellion y Concordat. Bydd y Datganiad Blynyddol ar gael i'r cyhoedd ar wefan y Brifysgol.

Y cyfnod o dan sylw yn y Datganiad Blynyddol hwn

5. Mae'r Datganiad Blynyddol hwn yn crynhoi'r camau a'r gweithgareddau yr ymgwymerwyd â hwy yn ystod Blwyddyn Academaidd 2017/2018 er mwyn cryfhau gonestrwydd ymchwil. Mae hefyd yn rhoi'r sicrwydd a'r datganiadau sy'n ofynnol ar gyfer camymddygiad dros yr un cyfnod.
6. I gael gwybodaeth fanwl am ddull gweithredu a fframwaith cyffredinol y Brifysgol o ran gonestrwydd ymchwil a chamymddygiad ymchwil, gweler Datganiad Blynyddol cyntaf y Brifysgol, a gyhoeddwyd ym mis Mawrth 2017¹.

Gweithredoedd a Gweithgareddau (2017/2018)

7. Mae gonestrwydd ymchwil wedi parhau i fod yn brif faes ffocws i'r Brifysgol yn ystod Blwyddyn Academaidd 2017/18, pan gyflwynwyd mentrau newydd i gryfhau ac ymgorffori gonestrwydd ymchwil ar draws y sefydliad. Nodir isod y prif weithgarwch yn ystod y cyfnod hwn.
8. Adolygiad Blynyddol o Gôd Ymarfer Gonestrwydd Ymchwil a'i Lywodraethu

¹ <https://www.cardiff.ac.uk/research/our-research-environment/integrity-and-ethics/research-integrity-and-governance>

- 8.1. Mae'r Côt yn cynnwys fframwaith y Brifysgol ar gyfer cynnal ymchwil mewn modd cyfrifol; mae'n gymwys ar gyfer pob ymchwilydd, ym mhob disgyblaeth. Pwyllgor Gonestrwydd a Moeseg Ymchwil y Brifysgol (URIEC) sy'n gyfrifol am gynnal y Côt ac adolygu ei effeithlonrwydd, ond mae'r cyfrifoldeb am gydlynu'r adolygiad wedi'i ddyrannu i Dîm Llywodraethu Gwaith Ymchwil y Brifysgol (Gwasanaethau Ymchwil ac Arloesedd) (RIS) y Brifysgol. Fel yn ôl argymhellion y Concordat, mae'r Côt yn destun adolygiad cyfnodol i wneud yn siŵr ei fod yn parhau'n addas i'r diben; ar hyn o bryd, mae'r weithgaredd hon yn cael ei chynnal yn flynyddol.
- 8.2. Canlyniad cynnal adolygiad blynyddol 2017/2018 oedd paratoi Côt diwygiedig. Roedd y diwygiadau yn deillio o ddiweddarau polisïau'r Brifysgol, fframweithiau proffesiynol allanol, ac adborth a gafwyd gan dimau Gwasanaethau Proffesiynol y Brifysgol, Arweinwyr Uniondeb Ymchwil ac Aelodau a Swyddogion URIEC.
- 8.3. Mae'r diwygiadau'n cynnwys ail-strwythuro cyffredinol a gwell ffordd o gyfeirio at ffynonellau eraill, ochr yn ochr â newidiadau i gynnwys penodol mewn adrannau, sy'n cynnwys, (ond heb eu cyfyngu i):
 - 8.3.1. Diogelu Data
Mae cyfeiriadau ar Ddeddf Diogelu Data 1998 wedi'u disodli gan 'ddeddfwriaeth Diogelu Data' er mwyn cynnwys y Rheoliad Cyffredinol Diogelu Data (GDPR) newydd, a Deddf Diogelu Data'r DU 2018. Mae cynnwys Diogelu Data wedi'i ddiweddarau ym mhob rhan o'r Côt er mwyn adlewyrchu'r hinsawdd ddeddfwriaethol sy'n newid. Mae'r Brifysgol hefyd wedi paratoi arweiniad penodol i ymchwilwyr ar sut i gymhwyso'r GDPR a'i effaith ar weithgaredd ymchwil.
 - 8.3.2. Awduraeth
Mae diweddariadau wedi'u gwneud i adlewyrchu arfer gorau wrth bennu awduraeth, ac osgoi anghydfodau ynghylch awduraeth. Yn benodol, mae'r Côt bellach yn annog ymchwilwyr i nodi'r meini prawf perthnasol o ran awduraeth, a chytuno ar bwy gaiff ei restru fel awdur wrth gam cynnar, dogfennu hynny, ac adolygu'r mater yn rheolaidd.
 - 8.3.3. Gwrthdaro rhwng Buddiannau
Mae'r Côt bellach yn cynnwys proses ddatgan ar gyfer myfyrwyr sy'n ymchwilwyr; gan ganiatáu iddynt ddatgan gwrthdaro rhwng buddiannau sy'n ymwneud â'u hymchwil. Yn flaenorol, dim ond proses ar gyfer staff sy'n ymchwilwyr oedd yn y Côt.
- 8.4. Mae nifer o adrannau newydd wedi'u hychwanegu i'r Côt, gan gynnwys (ond heb eu cyfyngu i):
 - 8.4.1. Rhaglen Hyfforddiant Ar-lein Gonestrwydd Ymchwil
Anogir Ymchwilwyr i gwblhau rhaglen hyfforddiant newydd y Brifysgol; cafodd ei lansio ar ddechrau Blwyddyn Academaidd 2017/2018. Mae cwblhau'r rhaglen hyfforddi hon yn orfodol ar gyfer categorïau penodol o staff a myfyrwyr, fel yr esbonnir ymhellach ym Mharagraff 9 isod.
 - 8.4.2. Ymchwil Sensitif o ran Diogelwch
Atgoffir ymchwilwyr am rwymedigaethau'r Brifysgol o ganlyniad i 'Ddyletswydd Prevent' a sut gallai' gweithgaredd ymchwil sbarduno'r ddyletswydd hon. Caiff ymchwilwyr eu cyfeirio at Bolisi'r Brifysgol ar Ymchwil Sensitif o ran Diogelwch;

cyflwynwyd ym mis Ebrill 2018. Mae'r Polisi hwn yn cynnwys fframwaith ar gyfer rheoli ymchwil sy'n dod o fewn cwmpas Dyletswydd *Prevent* mewn modd cyfrifol (gweler Paragraff 12 isod).

8.4.3. Camymddygiad Ymchwil

Caiff ymchwilwyr eu cyfeirio at bolisiau a gweithdrefnau'r Brifysgol ar Gamymddygiad Ymchwil, a'u hatgoffa bod y Brifysgol wedi ymrwymo i gymryd pob honiad o gamymddygiad ymchwil yn gwbl o ddifrif.

8.4.4. Cofrestru Ymchwil Glinigol ar Gronfeydd Data sydd ar gael i'r Cyhoedd

Caiff ymchwilwyr eu hatgoffa, o ran arfer da, dylai pob prosiect ymchwil glinigol fod yn gofrestredig ar gronfa ddata sydd ar gael i'r cyhoedd. Mewn rhai achosion, ac yn enwedig os yw'r ymchwil yn cynnwys treialon clinigol, mae'n cael ei ystyried yn fwy moesegol i wneud hynny.

9. Cyflwyno Rhaglen Hyfforddiant Ar-lein Gonestrwydd Ymchwil

9.1. Ar ddechrau Blwyddyn Academaidd 2017/2018, lansiodd y Brifysgol raglen hyfforddiant ar-lein newydd â'r bwriad o helpu ymchwilwyr i ddeall eu cyfrifoldebau gwneud yn siŵr bod ymchwil yn cael ei chynnal hyd at y safonau proffesiynol uchaf. Datblygwyd yr hyfforddiant yn fewnol gan Swyddog Gonestrwydd Gwaith Ymchwil a'i Lywodraethu (RIGO) y Brifysgol, gyda chyfraniad gan dimau Gwasanaethau Proffesiynol amrywiol ar draws y Brifysgol, ac Aelodau a Swyddogion URIEC. Mae'r hyfforddiant yn cwmpasu ystod o bynciau gonestrwydd ymchwil, gan gynnwys: moeseg ymchwil; camymddygiad ymchwil; awduraeth ac arfer cyhoeddi; gwrthdaro rhwng buddiannau a rheoli data.

9.2. Rhaid i rhai staff a grwpiau myfyrwyr gwblhau'r hyfforddiant, ac awgrymir yn gryf bod unrhyw un arall sy'n ymwneud â gwaith ymchwil yn y Brifysgol yn ei gwblhau hefyd. Tra bod y grwpiau y mae'r hyfforddiant yn orfodol ar eu cyfer yn destun adolygiad, ar gyfer y Flwyddyn Academaidd 2017/2018, roedd yn rhaid i'r holl staff newydd a ymunodd â'r Brifysgol ar gytundeb Ymchwil, neu Addysgu ac Ymchwil, a'r holl fyfyrwyr ymchwil ôl-raddedig newydd, gwblhau'r hyfforddiant.

10. Sefydlu rhwydwaith o 'Arweinwyr Gonestrwydd Ymchwil'

10.1. Ers dechrau Blwyddyn Academaidd 2017/2018, mae'r Brifysgol wedi pennu unigolyn ym mhob Ysgol Academaidd (ac un unigolyn ar lefel Coleg) i fod yn Arweinydd Gonestrwydd Ymchwil (Arweinydd GY). Mae'r unigolion hyn yn ffurfio rhwydwaith o Arweinwyr GY sy'n cefnogi gwaith URIEC a'n helpu i gryfhau ac ymgorffori gonestrwydd ymchwil ar draws y Brifysgol.

10.2. Mae'r Arweinwyr GY yn hwyluso ac yn hyrwyddo mentrau gonestrwydd ymchwil ac yn cyfrannu at adnabod a datblygu'r mentrau newydd. Ers lansio'r fenter Arweinwyr GY, mae'r arweinwyr wedi bod ynghlwm wrth ystod o weithgareddau, gan gynnwys:

10.2.1. Mynd i seminarau un-pwrpas ar onestrwydd ymchwil;

10.2.2. Rhoi adborth ar ddigwyddiadau arfaethedig i'r Côt ac ar ymagwedd y Brifysgol tuag at adolygiad o foeseg ymchwil (er mwyn helpu i lywio adolygiad o Brosesau Moeseg Ymchwil y Brifysgol yn y dyfodol);

10.2.3. Ymgysylltu â RIGO'r Brifysgol o ran ymholiadau ynghylch gonestrwydd ymchwil sy'n codi o fewn yr Ysgol/Coleg;

- 10.2.4. Cyfathrebiadau lleol/rhannu gwybodaeth am onestrwydd ymchwil; a
- 10.2.5. Rhoi adborth am y disgrifiad o rôl yr Arweinydd GY (â'r bwriad o adolygu'r disgrifiad o'r rôl ar gyfer Blwyddyn Academaidd 2018/2019).

10.3. Ers lansio menter Arweinwyr GY, bu cynnydd yn y drafodaeth rhwng y rheini a bennwyd yn Arweinwyr GY a'r RIGO, ac mae'r Arweinwyr GY erbyn hyn yn rhwydwaith effeithiol ar gyfer rhannu arfer da. Mae'r fenter wedi helpu i hyrwyddo gonestrwydd ymchwil ar draws pob disgyblaeth, ac wedi helpu gyda'r broses o roi polisiâu gonestrwydd ymchwil ar waith, a hyfforddiant lleol. Mae'r rhain i gyd yn gamau cadarnhaol tuag at ymgorffori diwylliant o onestrwydd ymchwil ar draws y sefydliad, a rhagwelir y bydd cyflwyno'r Arweinwyr GY fel 'pwyntiau cyswllt a enwir' ar gyfer ymholiadau ynghylch gonestrwydd ymchwil yn y dyfodol yn cryfhau diwylliant o onestrwydd ymchwil ymhellach.

11. Cyflwyno Polisi Deunydd Ymchwil Sensitif o ran Diogelwch (YSD)

11.1. Ym mis Ebrill 2018, lansiodd y Brifysgol bolisi YSD newydd sy'n cynnwys fframwaith ar gyfer cofrestru'r YSD sy'n cael ei chynnal ym Mhrifysgol Caerdydd, a'i rheoli mewn modd cyfrifol. Mae'r Polisi YSD yn gymwys ar gyfer ymchwil sy'n dod o fewn cwmpas 'Dyletswydd *Prevent*'.

11.2. Diben y Polisi YSD yw gwneud yn siŵr bod yr Ymchwil sy'n Sensitif o ran Diogelwch yn cael ei chynnal yn briodol ac yn gyfrifol, a bod y Brifysgol yn cymryd camau priodol i ddiogelu Ymchwilwyr (a'r gymuned o staff a myfyrwyr yn fwy eang) rhag y perygl o radicleiddio a/neu'r risg y gallai gweithgarwch YSD arwain at gamddechongli o fwriad gan awdurdodau allanol.

11.3. Yn unol â'r polisi newydd, ymchwilwyr sy'n gyfrifol am amlygu p'un a allai'r ymchwil y maent yn ei chynnal gael ei hystyried yn YSD. Os felly, mae'n rhaid iddynt lenwi Ffurflen Gofrestru YSD a'i harwain at RIS (gan ddefnyddio cyfeiriad ebost un pwrpas a sefydlwyd ar gyfer cofrestru YSD) cyn i'r ymchwil ddechrau. Mae'r Ffurflen Gofrestru YSD yn ei gwneud yn ofynnol ar ymchwilwyr i roi sicrwydd penodol ym meysydd adolygu moesegol, diogelwch data a gwybodaeth a diogelu. Unwaith bod Ffurflen Gofrestru YSD wedi dod i law, caiff yr ymchwil ei gofrestru gan RIS ar Gofrestr YSD.

11.4. Cyfrifoldeb URIEC yw goruchwyllo'r Polisi YSD, fydd yn cael adroddiadau gan RIS ar yr holl YSD a gofrestrwyd o dan y polisi. Caiff gwybodaeth a roddwyd ar y Gofrestr YSD ei rhannu gyda Grŵp Strategaeth *Prevent* y Brifysgol, lle bydd hynny'n ofynnol.

12. Ymgysylltu allanol a rhannu arfer da

12.1. Yn ystod Blwyddyn Academaidd 2017/2018, mae'r Brifysgol wedi parhau i ymgysylltu â grwpiau a sefydliadau allanol er mwyn rhannu arfer da ac archwilio trefniadau llywodraethu effeithiol ar gyfer hyrwyddo gonestrwydd ymchwil. Yn benodol, mae RIGO'r Brifysgol yn parhau i fod yn aelod gweithgar o Fforwm Gonestrwydd Ymchwil Grŵp Russell (RGRIF) ac yn rhoi adborth o ddigwyddiadau RGRIF i'r Tîm Llywodraethu Gwaith Ymchwil yn fwy eang, ac URIEC.

12.2. Yn ystod Blwyddyn Academaidd 2017/2018, mae'r Brifysgol wedi cyfrannu tuag at fentrau a chyhoeddiadau amrywiol Grŵp Russell ym maes gonestrwydd ymchwil, gan gynnwys: bwydo i mewn i ymateb Grŵp Russell i Ymchwiliad Gonestrwydd Ymchwil y Pwyllgor Gwyddoniaeth a Thechnoleg; a rhoi adborth ar Ddatganiad o Gydweithrediad Grŵp Russell o ran honiadau o gamymddygiad ymchwil ar draws sefydliadau, a'i fabwysiadu.

12.3. Mae'r Brifysgol yn parhau i danysgrifio i'r Swyddfa Gonestrwydd Ymchwil y DU (UKRIO) ac aeth i Gynhadledd Flynyddol UKRIO 2018. Yn ogystal, mae'r Brifysgol yn gweithio gydag UKRIO ar ddatblygu nodyn ymarfer ar gyfer sefydliadau ymchwil ar fabwysiadu arweinwyr/hyrwyddwyr gonestrwydd ymchwil, fel modd o ymgorffori gonestrwydd ymchwil ar draws sefydliad. Mae'r Brifysgol yn rhannu ei phrofiad o fabwysiadu model arweinwyr gonestrwydd ymchwil o fewn UKRIO i fod o fudd i sefydliadau ymchwil eraill, a dechrau trafodaeth ar sut gall menter o'r fath gael ei gwella ymhellach.

Camau a gynllunnir

13. Yn ogystal â'r gweithgareddau a gynhaliwyd yn ystod Blwyddyn Academaidd 2017/2018, mae nifer o weithgareddau gonestrwydd ymchwil wedi'u cynllunio ar gyfer y Flwyddyn Academaidd nesaf (mae camau cychwynol eisoes wedi'u cymryd ar eu cyfer gan RIS a/neu URIEC), gan gynnwys:

13.1. Adolygu Gweithdrefnau Moeseg Ymchwil y Brifysgol

Mae'r Brifysgol wedi dechrau cynnal adolygiad o'i Gweithdrefnau Moeseg Ymchwil ar gyfer ymchwil sy'n cynnwys pobl, deunydd dynol neu ddata dynol. Bydd y broses adolygu yn gofyn i RIS ac URIEC ymgysylltu â rhanddeiliaid allweddol ar draws y Brifysgol i weld os, ac y mha fodd, y gellir gwella gweithdrefnau'r Brifysgol er mwyn helpu ymchwilwyr i fodloni'r safonau moesegol uchaf posibl.

13.2. Datblygu Arweiniad Gonestrwydd Delweddau

Mae'r Brifysgol yn y broses o ddatblygu arweiniad i'w ymchwilwyr ar Onestrwydd Delweddau. Nod yr arweiniad fydd hyrwyddo ymddygiad da o ran cyhoeddi delweddau a helpu i atal newid delweddau yn amhriodol.

Gweithdrefn Camymddygiad Ymchwil Academaidd (Gweithdrefn ARM)

14. Mae Prifysgol Caerdydd yn cymryd unrhyw gyhuddiad o gamymddwyn ym maes ymchwil o ddifrif ac mae wedi paratoi gweithdrefn i ymdrin â chyhuddiadau o'r fath yn unol ag egwyddorion y Concordat a'r arweiniad a gyhoeddwyd gan Swyddfa Unplygrwydd Ymchwil y DU.

15. Mae tri cham i'r weithdrefn ARM. Ym mhob cam, gall y cyhuddiadau gael eu gollwng neu eu cymryd ymlaen i'r cam nesaf:

15.1. Cam Rhagarweiniol lle bydd yr Unigolyn a Enwir, mewn ymgynghoriad â'r PVC ac fel arfer o fewn 20 diwrnod gwaith, yn cynnal adolygiad rhagarweiniol o'r cyhuddiad. Er mwyn dod i benderfyniad, caiff yr Unigolyn a Enwir geisio cyngor gan arbenigwr mewnol ynghylch difrifoldeb a hygredd y pryderon.

15.2. Cam sgrinio lle bydd Panel o hyd at dri aelod o staff mewnol sy'n meddu ar arbenigedd perthnasol a statws academaidd, fel arfer o fewn 30 diwrnod gwaith, yn cynnal gwerthusiad cychwynol o'r holl ddeunydd perthnasol sy'n ymwneud â'r cyhuddiad a ddarparwyd gan yr Achwynydd a'r Atebydd, gan ofyn am eglurhad pellach os oes angen. Bydd y Panel Sgrinio yn paratoi adroddiad ysgrifenedig, cyfrinachol o'i werthusiad a'i benderfyniad, a bydd yn ei gyflwyno i'r Unigolyn a Enwir.

15.3. Cynhelir Cam Ymchwiliad Ffurfiol, lle sefydlir panel yn cynnwys Cadeirydd annibynnol, diduedd a dau aelod diduedd gydag arbenigedd a statws priodol. Dylai'r Cadeirydd ac o leiaf un o'r ddau aelod fod o du allan i'r Brifysgol, ac ni ddylent fod yn cael eu cyflogi gan

y Brifysgol nac yn gweithio o dan contract i'r Brifysgol. Ni ddylai'r aelod mewnol fod yn aelod o staff yn yr un Ysgol â'r Atebydd.

16. Cynhaliwyd adolygiad 'cyffyrddiad ysgafn' o'r Weithdrefn ARM yn ystod Blwyddyn Academaidd 2017/2018, er mwyn i'r Brifysgol ddiweddarau'r weithdrefn yn unol â pholisi ac arweiniad wedi'i ddiweddarau RCUK ar Ymddygiad Ymchwil Da, Telerau ac Amodau Grant RCUK a deddfwriaeth diogelu data.
17. Sefydlir gweithgor ym Mlwyddyn Academaidd 2018/2019 er mwyn cynnal adolygiad llawn o Weithdrefn ARM i wneud yn siŵr bod y profiad o ddelio â honiadau yn parhau i lywio'r weithdrefn, ei fod yn parhau'n addas at y diben, yn cydymffurfio ag arferion gorau ac yn gadarn a theg. Bydd y Weithdrefn ARM ddiwygiedig yn cael ei chyflwyno i Bwyllgor Gonestrwydd a Moeseg Ymchwil y Brifysgol, Senedd y Brifysgol a Phwyllgor Llywodraethu'r Brifysgol, i gytuno arni.

Datganiad ar ymchwiliadau ffurfiol i Gamymddygiad Ymchwil Academaidd

18. Yn ystod blwyddyn academaidd 2017/2018, cafwyd chwe chyhuddiad/cyfres o gyhuddiadau o dan weithdrefn ARM y Brifysgol. Ymhlith y cyhuddiadau hyn:
 - 18.1. Cafodd dau eu gwrthod wrth y cam cychwynnol;
 - 18.2. Ymchwiliwyd i ddau wrth y cam ymchwiliad ffurfiol. Canfu'r ymchwiliad, yn wyneb y dystiolaeth a gyflwynwyd, nad oedd yr honiadau o Gamymddygiad Ymchwil Academaidd wedi'u cadarnhau, ac
 - 18.3. Mae un achos yn dal i gael ei ystyried.

Paratoi'r Datganiad Blynyddol hwn

19. Paratowyd y Datganiad Blynyddol hwn gan Dîm Llywodraethu Gwaith Ymchwil y Brifysgol, Gwasanaethau Ymchwil ac Arloesedd y Brifysgol a Thîm Gwasanaethau Sicrwydd y Brifysgol, Cynllunio Strategol a Llywodraethu. Cyflwynwyd drafft o'r datganiad yn y lle cyntaf i URIEC ei ystyried a chynnig sylwadau yn ei gylch. Cymeradwywyd y Datganiad Blynyddol gan URIEC ar 09 Hydref 2018.
20. Cyflwynwyd y Datganiad Blynyddol mewn cyfarfodydd pellach o Senedd y Brifysgol ar 31 Hydref 2018 a'r Pwyllgor Llywodraethu ar 01 Tachwedd 2018, cyn ei anfon ymlaen at y Cyngor i'w gymeradwyo ar 26 Tachwedd 2018. Mae'r diwygiadau a argymhellwyd yn y cyfarfodydd hyn wedi eu hymgorffori yn fersiwn derfynol y Datganiad Blynyddol hwn.

Yr Athro Kim Graham
Rhag Is-Ganghellor Ymchwil, Arloesedd a Menter
Tachwedd 2018

Allwedd Talfyriadau

ARM	Camymddygiad ymchwil academaidd
Y Côt	Côt Ymarfer Gonestrwydd Gwaith Ymchwil a'i Lywodraethu
GDPR:	Rheoliad Cyffredinol Diogelu Data
RGRIF	Fforwm Gonestrwydd Ymchwil Grŵp Russell
RIGO	Swyddog Gonestrwydd Gwaith Ymchwil a'i Lywodraethu
Arweinydd GY	Arweinydd Gonestrwydd Ymchwil
RIS	Gwasanaethau Ymchwil ac Arloesedd
YSD	Ymchwil Sensitif o ran Diogelwch
UKRIO	Swyddfa Gonestrwydd Ymchwil y DU
URIEC	Pwyllgor Gonestrwydd a Moeseg Ymchwil y Brifysgol